# PWY SYDD ANGEN GWNEUD DBS A BETH YW EIN POLISI?

Os mae rôl yn gymwys ar gyfer gwiriad DBS, ein polisi ni yw y dylid gwneud un. Mae hyn yn unol ag arfer gorau a chanllawiau'r Comisiwn Elusennau.

Ni allwn wneud gwiriad DBS rhag ofn i rywun benderfynu gweithio gyda grwpiau agored i niwed yn y dyfodol. Mae'n rhaid i ni gadarnhau bod pob rôl yn gymwys cyn cyflwyno cais i'r DBS**.** Dyna pam rydym yn gofyn cymaint o cwestiynau ar y Jotform neu ffurflen gwirwyr

Edrychwch ar y siartiau llif a'r enghreifftiau i weld pwy sy'n gymwys ac sydd angen gwneud gwiriad DBS, neu darllenwch ein Taflen Polisi a Chrynodeb o Gymhwysedd. Os ydy'r rôl yn gymwys, dylech wneud gwiriad DBS **cyn** i chi ddechrau gweithio ac yna bob **pedair blynedd.**

**Mae'r wybodaeth hon a diffiniad o weithgaredd a rheoleiddir yn Adran 2 o'r Llawlyfr Diogelu Grwpiau Bregus 2022**

## DAL YN ANSICR?

### Edrychwch ar y rhestrau isod neu cysylltwch â ni

Rhestr wirio cymhwysedd ar gyfer gwiriad DBS i'r rhai sy'n gweithio/ gwirfoddoli gydag Oedolion Bregus yma neu gyda phlant yma

**Goruchwyliaeth -** er mwyn penderfynu a yw rôl gyda phlant yn gweithgaredd a rheoleiddir ai peidio, mae'n hanfodol ofyn a oes goruchwyliaeth ddigonol. Cliciwch yma i ddarllen y canllawiau statudol ar oruchwylio.

**Ymddiriedolwyr:** Os yw ymddiriedolwr yn gwneud gweithgaredd a rheoleiddir ac yn gweithio'n agos gyda grwpiau bregus neu yn rheoli /goruchwylio'r rhai sy'n gwneud y gwaith hwnnw, bydd yn ofynnol iddynt wneud gwiriad gyda gwiriad o'r rhestrau gwahardd oherwydd natur y gwaith, nid oherwydd y teitl 'ymddiriedolwr'**.** Fodd bynnag, mae ymddiriedolwr, sy'n ymwneud â rhedeg eglwys sy'n darparu gweithgareddau i blant neu oedolion agored i niwed/bregus hefyd yn gymwys i wneud gwiriad manwl (heb wiriad o'r rhestrau gwahardd) hyd yn oed os nad ydynt yn gweithio'n uniongyrchol gyda'r grwpiau agored i niwed. Mae hyn oherwydd bod eglwys sy'n gweithio gyda phlant a/neu oedolion bregus yn gallu cael ei gyfrif fel "elusen ar gyfer grwpiau agored i niwed" at ddibenion gwiriad DBS ac mae'r ymddiriedolwyr yn gyfrifol am y gwaith.

Panel Diogelu Cydenwadol
Interdenominational Safeguarding Panel

**1 Vale Parc, Ystâd Ddiwydiannol Colomendy, Dinbych, LL16 5TA 01745 817584 / 07957510346**
**post@panel.cymru : https://panel.cymru**